

Sunday 4th January 2026

+ The Epiphany of the Lord

The collect of the day

O God, by the leading of a star you manifested your only Son to the peoples of the earth: mercifully grant that we, who know you now by faith, may at last behold your glory face to face; through the Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Isaiah

(60.1-6)

Arise, shine; for your light has come, and the glory of the Lord has risen upon you. For darkness shall cover the earth, and thick darkness the peoples; but the Lord will arise upon you, and his glory will appear over you. Nations shall come to your light, and kings to the brightness of your dawn.

Lift up your eyes and look around; they all gather together, they come to you; your sons shall come from far away, and your daughters shall be carried on their nurses' arms. Then you shall see and be radiant; your heart shall thrill and rejoice, because the abundance of the sea shall be brought to you, the wealth of the nations shall come to you. A multitude of camels shall cover you, the young camels of Midian and Ephah; all those from Sheba shall come. They shall bring gold and frankincense, and shall proclaim the praise of the Lord.

The Psalm

(72.10 – 15)

The kings of Tarshish and of the isles / shall pay / tribute: the kings of Sheba and / Seba / shall bring / gifts. All kings shall fall / down be/fore him: all / nations shall / do him / service.

For he shall deliver the / poor that cry / out: the needy and / those who / have no / helper. He shall have pity on the / weak and / poor: he shall pre/serve the / lives of the / needy.

He shall redeem their lives from op/pression and / violence: and dear shall their / blood be / in his / sight. Long may he live; unto him may be given / gold from / Sheba: may prayer be made for him continually * and may they / bless him / all the day / long.

The reading from Ephesians

(3.1-12)

I, Paul, am a prisoner for Christ Jesus for the sake of you Gentiles – for surely you have already heard of the commission of God's grace that was given me for you, and how the mystery was made known to me by revelation, as I wrote above in a few words, a reading of which will enable you to perceive my understanding of the mystery of Christ.

In former generations this mystery was not made known to humankind, as it has now been revealed to his holy apostles and prophets by the Spirit: that is, the Gentiles have become fellow-heirs, members of the same body, and sharers in the promise in Christ Jesus through the gospel.

Of this gospel I have become a servant according to the gift of God's grace that was given me by the working of his power. Although I am the very least of all the saints, this grace was given to me to bring to the Gentiles the news of the boundless riches of Christ, and to make everyone see what is the plan of the mystery hidden for ages in God who created all things; so that through the church the wisdom of God in its rich variety might now be made known to the rulers and authorities in the heavenly places. This was in accordance with the eternal purpose that he has carried out in Christ Jesus our Lord, in whom we have access to God in boldness and confidence through faith in him.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew

(2.1-12)

In the time of King Herod, after Jesus was born in Bethlehem of Judea, wise men from the East came to Jerusalem, asking, 'Where is the child who has been born king of the Jews? For we observed his star at its rising, and have come to pay him homage.'

When King Herod heard this, he was frightened, and all Jerusalem with him; and calling together all the chief priests and scribes of the people, he inquired of them where the Messiah was to be born.

They told him, 'In Bethlehem of Judea; for so it has been written by the prophet: "And you, Bethlehem, in the land of Judah, are by no means least among the rulers of Judah; for from

you shall come a ruler who is to shepherd my people Israel.'"

Then Herod secretly called for the wise men and learned from them the exact time when the star had appeared. Then he sent them to Bethlehem, saying, 'Go and search diligently for the child; and when you have found him, bring me word so that I may also go and pay him homage.'

When they had heard the king, they set out; and there, ahead of them, went the star that they had seen at its rising, until it stopped over the place where the child was. When they saw that the star had stopped, they were overwhelmed with joy.

On entering the house, they saw the child with Mary his mother; and they knelt-down and paid him homage. Then, opening their treasure-chests, they offered him gifts of gold, frankincense, and myrrh.

And having been warned in a dream not to return to Herod, they left for their own country by another road.

The collect following communion

Lord God, the bright splendour whom the nations seek: may we who with the wise men have been drawn by your light discern the glory of your presence in your Son, the Word made flesh, Jesus Christ our Lord. AMEN

Dydd Sul 3^{ydd} Ionawr 2026 + Yr Ystwyll

Colect y dydd

O Dduw graslon, a amlygaist dy unig Fab i bobloedd y ddaear, trwy arweiniad seren: arwain ni, sy'n dy adnabod yn awr drwy ffydd, i'th bresenoldeb sanctaidd lle y cawn ganfod dy ogoniant wyneb yn wyneb trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

Darlleniad o Eseia

(60.1-6)

"Cod, llewyrcha, oherwydd daeth dy oleuni; llewyrchodd gogoniant yr Arglwydd arnat. Er bod tywyllwch yn gorchuddio'r ddaear, a'r fagddu dros y bobloedd, bydd yr Arglwydd yn llewyrchu arnat ti, a gwelir ei ogoniant arnat. Fe ddaw'r cenhedloedd at dy oleuni, a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy wawr.

Cod dy lygaid ac edrych o'th gwmpas; y maent i gyd yn ymgasglu i ddod atat, yn dwyn dy feibion a'th ferched o bell, ac yn eu cludo ar eu hystlys; pan weli, bydd dy wyneb yn gloywi, bydd dy galon yn llawn cyffro a llawenydd; troir atat gyflawnder y môr, a daw golud y cenhedloedd yn eiddo iti. Bydd gyrroedd o gamelod yn dy orchuddio, daw camelod masnach o Midian, Effa a Sheba; byddant i gyd yn cludo aur a thus, ac yn mynegi moliant yr Arglwydd."

Y Salm

(72.10-15)

Bydded i frenhinoedd Tarsis a'r nysoedd ddod ag anrhegion iddo, ac i

frenhinoedd Sheba a Seba gyflwyno eu teyrnged. Bydded i'r holl frenhinoedd ymostwng o'i flaen, ac i'r holl genhedloedd ei wasanaethu.

Oherwydd y mae'n gwaredu'r anghenus pan lefa, a'r tlawd pan yw heb gynorthwywr. Y mae'n tosturio wrth y gwan a'r anghenus, ac yn gwaredu bywyd y tlodion.

Y mae'n achub eu bywyd rhag trais a gorthwm, ac y mae eu gwaed yn werthfawr yn ei olwg. Hir oes fo iddo, a rhodder iddo aur o Sheba; aed gweddi i fyny ar ei ran yn wastad, a chaffed ei fendithio bob amser.

Darlleniad o Effesiaid

(3.1-12)

Oherwydd hyn, yr wyf fi, Paul, carcharor Crist Iesu er eich mwyn chwi'r Cenhedloedd, yn offrymu fy ngweddi. Y mae'n rhaid eich bod wedi clywed am gynllun gras Duw, y gras sydd wedi ei roi i mi er eich lles chwi: sef i'r dirgelwch gael ei hysbysu i mi trwy ddatguddiad. Yr wyf eisoes wedi ysgrifennu'n fyr am hyn, ac o'i ddarllen gallwch ddeall fy nirnadaeth o ddirgelwch Crist.

Yn y cenedlaethau gynt, ni chafodd y dirgelwch hwn mo'i hysbysu i blant dynion, fel y mae yn awr wedi ei ddatguddio gan Ysbryd Duw i'w apostolion sanctaidd a'i broffwydi. Dyma'r dirgelwch: bod y Cenhedloedd, ynghyd â'r Iddewon, yn gydetifeddion, yn gydaelodau o'r corff, ac yn gydgyfranogion o'r addewid yng Nghrist Iesu trwy'r Efengyl.

Dyma'r Efengyl y deuthum i yn weinidog iddi yn ôl rhodd gras Duw, a

roddwyd i mi trwy weithrediad ei allu ef. I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y rhodd raslon hon, i bregethu i'r Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist, ac i ddwyn i'r golau gynllun y dirgelwch a fu'n guddiedig ers oesoedd yn Nuw, Creawdwr pob peth, er mwyn i ysblander amryfal ddoethineb Duw gael ei hysbysu yn awr, trwy'r eglwys, i'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd. Y mae hyn yn unol â'r arfaeth dragwyddol a gyflawnodd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. Ynddo ef, a thrwy ffydd ynddo, yr ydym yn cael dod at Dduw yn eofn a hyderus.

Gwrandewch Efengyl Crist

yn ôl Sant Mathew

(2.1-12)

Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli."

A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef. Galwodd ynghyd yr holl brif offeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a holi ganddynt ble yr oedd y Meseia i gael ei eni.

Eu hateb oedd, "Ym Methlehem Jwdea, oherwydd felly yr ysgrifennwyd gan y proffwyd: 'A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg tywysogion Jwda, canys ohonot ti y daw allan arweinydd a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel.'"

Yna galwodd Herod y seryddion yn ddirgel ato, a holodd hwy'n fanwl pa bryd yr oedd y seren wedi ymddangos. Anfonodd hwy i Fethlehem gan ddweud, "Ewch, a chwiliwch yn fanwl am y plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd iddo, rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd a'i addoli."

Wedi gwrando ar y brenin aethant ar eu taith, a dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn. A phan welsant y seren, yr oeddent yn llawen dros ben.

Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr.

Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.

Defnyddir gweddi ôl-ynghyd

Arglwydd Dduw, yr ysblander disglair y mae'r cenhedloedd yn ei geisio, bydded i ni, sydd gyda'r doethion, wedi ein denu gan dy oleuni, ddirnad gogoniant dy bresenoldeb yn dy Fab, y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen



